



Bae Caerdydd / Cardiff Bay  
Caerdydd / Cardiff  
CF99 1NA

2 Mai 2013

Annwyl Syr / Madam

**Ymgynghoriad ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth)  
(Cymru)**

Fel rhan o'i waith o ystyried y Bil yng Nghyfnod 1, mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn gwahodd tystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru). I gynorthwyo ei waith, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn am y pwnc hwn.

**Beth yw Bil?**

Cyfraith arfaethedig yw Bil. Ar ôl i'r Cynulliad ystyried a phasio Bil, ac ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines, mae'n dod yn 'Ddeddf y Cynulliad.'

Mae pedwar cyfnod i'r broses o ystyried Bil. Yng Nghyfnod 1, bydd pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil (sy'n cynnwys cymryd tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar gan rai sydd â diddordeb a chan randdeiliaid); ac mae Cyfnod 1 hefyd yn cynnwys cael cytundeb y Cynulliad i'r egwyddorion cyffredinol hynny.

**Beth y mae'r Bil hwn yn gobeithio ei gyflawni?**

Mae polisi Llywodraeth Cymru sydd wrth wraidd y Bil wedi'i amlinellu yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil. Gwelir yma grynodedeb o rai o'r prif amcanion, y rhoddir eglurhad llawn arnynt, yn y Memorandwm Esboniadol:

*Nod Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) yw rhoi rhagor o annibyniaeth i Sefydliadau Addysg Bellach, a gwella'u gallu i wneud penderfyniadau, drwy addasu a chael gwared ar y rheolaethau deddfwriaethol sydd arnynt ar hyn o bryd. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i geisio gwrthdroi'r modd y dosbarthodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y Sefydliadau Addysg Bellach fel rhan o'r Llywodraeth Ganolog at ddibenion Cyfrifon Gwladol, fel y cânt eu categorio eto fel "sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd."*

*Mae'r Bil hefyd yn rhoi effaith i bolisi Llywodraeth Cymru ar ganiatáu i Gyllid a Thollau ei Mawrhydi rannu data sy'n berthnasol i grantiau a benthyciadau myfyrwyr gyda Gweinidogion Cymru a chydag unrhyw un neu rai y mae Gweinidogion Cymru yn dirprwyo neu'n trosglwyddo swyddogaethau iddynt. Mae'r porth rhannu data yn rhan annatod o brosiect i foderneiddio'r gwasanaeth a gynigir gan Gyllid Myfyrwyr Cymru, gan symleiddio'r gwasanaeth hwnnw a'i wneud yn fwy effeithlon.*

Mae'r Mesur a'r Memorandwm Esboniadol ar gael ar wefan y Cynulliad trwy'r ddolen isod:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=6429>

### **Beth yw rôl y Pwyllgor?**

Rôl y Pwyllgor yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt. Wrth wneud hyn, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i weithio o fewn y fframwaith a ganlyn:

Ystyried:

- i) a oes angen y Bil;
- ii) prif ddarpariaethau'r Bil ac a ydynt yn briodol i gyflawni'r amcanion a nodwyd ynddo;
- iii) goblygiadau ariannol y Bil;
- iv) unrhyw rwystrau posibl i roi'r prif ddarpariaethau ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- v) a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- vi) barn rhanddeiliaid; a

- vii) faint o fanylion a geir ar wyneb y Bil o gymharu ag unrhyw bwerau a geir mewn is-ddeddfwriaeth.

### Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ei waith o graffu ar y Bil. Yn benodol, byddem yn croesawu eich sylwadau ar y cwestiynau a restrir yn Atodiad 1.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig, os yw'n bosibl, drwy e-bost i'r cyfeiriad a ganlyn: [CYPCommittee@cymru.gov.uk](mailto:CYPCommittee@cymru.gov.uk) a nodi'r teitl a ganlyn ar yr e-bost, "Ymgynghoriad - Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)."

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Olga Lewis, Dirprwy Glerc  
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd, CF99 1NA

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn dydd Gwener 31 Mai 2013. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Wrth baratoi eich cyflwyniad, cadwch y canlynol mewn cof:

- dylai eich ymateb gyfeirio at y materion sydd gerbron y Pwyllgor. Gofynnwn i chi roi'r teitl a nodir uchod ar eich tystiolaeth;
- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel rheol yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael yn gyhoeddus, ac efallai y cânt eu gweld a'u trafod gan Aelodau'r Cynulliad mewn cyfarfodydd pwyllgor. Os nad ydych am i'ch ymateb na'ch enw gael eu cyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny'n glir wrth gyflwyno'r dystiolaeth;
- nodwch ai ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad yr ydych; a
- nodwch a fydddech yn barod i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. (Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor yn debygol o fod yn gwrando ar dystiolaeth ar lafar ar fore dydd Iau 23 Mai, dydd Mercher 5 Mehefin, dydd Iau 13 Mehefin ac, o bosibl, dydd Mercher 19 Mehefin.)

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod y dyddiau uchod.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd ymatebion gan ystod eang o gyrff, mae rhestr ohonynt ar gael ar gais. Er hynny, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe baech yn gallu anfon copi o'r llythyr at unrhyw unigolion neu sefydliadau yr ydych yn credu hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad o bosibl. Mae copi o'r llythyr hwn hefyd wedi'i roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

### **Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth yr ystyrir ei fod yn ddata personol.

Os cawn gais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth y DU, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Steve George, Clerc y Pwyllgor, drwy ffonio 029 2089 8242, neu Olga Lewis, y Dirprwy Glerc, drwy ffonio 029 2089 8154.

Yn gywir



**Ann Jones AC**  
Cadeirydd

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

### Cyffredinol

1. Mae'r Memorandwm Esboniadol, a baratowyd gan Lywodraeth Cymru, yn disgrifio prif ddibenion y Bil drwy nodi mai:

*“Nod y Bil.... yw rhoi rhagor o annibyniaeth i Sefydliadau Addysg Bellach, a gwella'u gallu i wneud penderfyniadau, drwy addasu a chael gwared ar y rheolaethau deddfwriaethol sydd arnynt ar hyn o bryd.*

*Mae'r Bil hefyd yn rhoi effaith i bolisi Llywodraeth Cymru ar ganiatáu i Gyllid a Thollau ei Mawrhydi rannu data sy'n berthnasol i grantiau a benthyciadau myfyrwyr gyda Gweinidogion Cymru a chydag unrhyw un neu rai y mae Gweinidogion Cymru yn dirprwyo neu'n trosglwyddo swyddogaethau iddynt. Mae'r porth rhannu data yn rhan annatod o brosiect i foderneiddio'r gwasanaeth a gynigir gan Gyllid Myfyrwyr Cymru, gan symleiddio'r gwasanaeth hwnnw a'i wneud yn fwy effeithlon.)*

A oes angen Bil ar gyfer y dibenion hyn? Esboniwch eich ateb.

2. A ydych yn credu bod y Bil, fel y'i drafftwyd, yn cyflawni'r amcanion a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol? Esboniwch eich ateb.

3. A yw adrannau'r Bil, fel y'u drafftwyd, yn briodol i gyflawni'r amcanion a ddisgrifir uchod? Os nad ydynt, pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Bil?

4. Sut y bydd y Bil yn newid yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud ar hyn o bryd, a pha effaith y bydd newidiadau o'r fath yn ei chael, os o gwbl?

5. Beth yw'r rhwystrau posibl i roi darpariaethau'r Bil ar waith (os ydynt yn bodoli), ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt?

6. A oes gennych farn ynghylch y modd y daw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

### **Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth**

7. Beth yw eich barn am y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (hynny yw, offerynau statudol, gan gynnwys rheoliadau, gorchmynion a chyfarwyddiadau)?

Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried Adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n cynnwys tabl yn crynhoi'r pwerau a fydd yn cael eu dirprwyo i Weinidogion Cymru yn y Bil i wneud gorchmynion a rheoliadau ac yn y blaen.

### **Goblygiadau ariannol**

8. Beth yw eich barn am oblygiadau ariannol y Bil?

Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n cynnwys amcangyfrif o'r costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â rhoi'r Bil ar waith.

### **Sylwadau eraill**

9. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am rannau penodol o'r Bil?

